Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfairpwll
# Y Gorlan
# Trem Eryri
# Ynys Môn
# LL61 5JF

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2014**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanfairpwll sy'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a phartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ynys Môn. Sefydlwyd y lleoliad gyntaf ym 1966 ac mae wedi'i lleoli ar dir yr ysgol gynradd ers 1974. Mae wedi ei lleoli yn yr adeilad presennol ers 1997 a chafodd hwn ei adeiladu yn bwrpasol i ddarparu addysg feithrin. Daw mwyafrif helaeth o'r plant o Lanfairpwll ei hun a Chymraeg yw prif iaith llawer o'r plant gyda'r gweddill o aelwydydd di-Gymraeg.

Mae 66 o blant yn mynychu'r lleoliad ac o'r rhain mae 57 ohonynt wedi'u hariannu gan y Bartneriaeth. Ar gyfer y plant cyn-ysgol, cynhelir pedair sesiwn o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos, pedair sesiwn am ddwy awr am bedwar prynhawn ac un sesiwn bore Gwener. Ar gyfer y plant bach o dan tair oed, cynhelir pump sesiwn dwy awr am bedwar prynhawn ac un ar fore Gwener.

Caiff y lleoliad ei staffio gan ddau arweinydd, pedair cymhorthydd dysgu a dwy aelod o staff ychwanegol. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau priodol sy'n gysylltiedig ag addysg y blynyddoedd cynnar.

Daw plant o bob gallu a chefndir cymdeithasol ac ieithyddol i'r lleoliad. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd o dras ethnig sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r adeilad yn addas o ran maint ac yn cynnwys dwy brif ystafell, dwy storfa, cyntedd a thoiledau. Mae'r ardal gaeedig y tu allan i'r adeilad.

Bydd y plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol lle maent yn parhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2014 a chan Estyn ym mis Mai 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd a rhifedd y plant yn dda a'u bod yn siarad yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion;
- gallu'r plant i ganolbwyntio ar dasg yn datblygu'n llwyddiannus iawn;
- parodrwydd y plant i ddyfalbarhau er mwyn gorffen tasg wedi datblygu'n effeithiol ym mhob gweithgaredd;
- y plant yn ymddwyn yn dda;
- y gweithgareddau y tu fewn a'r tu allan yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus; a bod y
- lleoliad yn darparu gofal, cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd da i bob plentyn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinwyr newydd â gweledigaeth glir sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer y plant sydd yn eu gofal;
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm er lles y plant;
- yr ymarferwyr yn adnabod anghenion unigol pob plentyn yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i'w datblygu yn addysgol a chymdeithasol; a bod
- ganddynt ystod o bartneriaethau effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu gallu i reoli offer mawr megis beiciau

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant werthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd ac i ddatblygu'n ysbrydol

A3 Cryfhau'r adroddiadau hunanfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu agweddau positif iawn at ddysgu tra'n mynychu'r lleoliad.

Mae medrau iaith bron pob plentyn yn datblygu'n effeithiol. Mae pob plentyn yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn llwyddiannus iddynt. Maent yn siarad yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion gyda llawer yn defnyddio iaith goeth a byrlymus. Mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad. Cânt hwyl yn canu caneuon cyfarwydd ac wrth wneud symudiadau i gyd-fynd â'r geiriau yn ddigymell.

Mae llawer yn dangos eu bod yn gwybod sut i ddal llyfr a throi tudalennau yn gywir. Maent yn amlwg yn mwynhau llyfrau cyfarwydd am gymeriadau yn ymwneud â'r thema megis Alwen y Môr Forwyn ac yn gallu ymateb yn synhwyrol iawn i'r hyn sy'n digwydd.

Mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn fedrus drwy wneud marciau pwrpasol yn gyson ar bapur neu wrth arbrofi gan ddefnyddio sialc yn yr ardal tu allan. Mae'r goreuon yn medru ysgrifennu eu henwau heb fawr o gymorth.

Mae bron pob plentyn yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau'n gan gyfrif, adnabod ac enwi rhifau i bump yn hyderus. Gall llawer gyfrif nifer o eitemau yn gywir. Er enghraifft, wrth gyfrif faint o gregyn sydd mewn twb yn y siop cregyn. Mae lleiafrif yn cyfrif yn gywir hyd at o leiaf 20. Maent yn defnyddio ystod o iaith fathemategol yn dda gyda'i gilydd wrth chwarae a dysgu gan fwynhau gwneud hynny. Er enghraifft, yn y pwll palu maent yn sôn am drysor mawr a bach ac yn atgyfnerthu rhifau yn gyson wrth ganu caneuon.

O fewn yr adeilad, maent yn gallu trin offer bach fel siswrn a thiwb glud yn llwyddiannus. Y tu allan, maent yn datblygu medrau cydbwyso drwy gerdded tros rwystr oddi ar y llawr, ac yn datblygu mentergarwch a chryfder corfforol ar ffrâm ddringo. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i reoli offer chwarae mawr megis ceir pedlo a beiciau wedi datblygu i'r un graddau.

Mae medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl y plant o ran dewis gweithgareddau a chanolbwyntio ar dasg yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae medrau datrys problemau'r plant, yn arbennig y rhai mwy abl, trwy ail-greu patrwm yn llwyddiannus yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn dewis gweithgaredd i'w wneud yn ddigymell. Maent yn dilyn trefn ddyddiol y lleoliad yn hwylus ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu profiadau dysgu. Mae eu gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau

er mwyn gorffen tasg wedi datblygu'n effeithiol ym mhob gweithgaredd. Mae diwydrwydd y plant yn nodwedd sydd wedi gwreiddio'n dda.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda iawn ac maent yn cydweithio a chwarae'n dda â'i gilydd. Maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae pob plentyn yn helpu i dacluso ac mae plant yn ymgymryd â bod yn "helpar yn y caffi" gan baratoi a gweini bwyd yn gyfrifol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau'r lleoliad.

Mae medrau cymdeithasol y plant yn datblygu'n dda trwy gyd-chwarae a chyd-fwyta. Trwy olchi dwylo pob bore cyn y byrbryd neu weithio yn y caffi, mae'r plant yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid da.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau cyfoethog a chyson o fewn y chwe maes dysgu. Mae'r cynllunio effeithiol yn nodi'r gweithgareddau ffocws a'r ddarpariaeth barhaus yn glir, gan gyfoethogi'r ardaloedd i gyd-fynd â'r thema. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys. Mae wedi ei seilio'n gadarn ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen o ddysgu drwy brofiadau uniongyrchol ac o ddysgu drwy chwarae.

Mae'r gweithgareddau y tu fewn a'r tu allan yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd cyson i'r plant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac mae hyn yn arwain at safonau da. Rhoddir cyfleoedd pwrpasol i blant wneud dewisiadau ac i ddatblygu eu medrau meddwl a dychmygol drwy weithgareddau diddorol megis helpu yn y caffi a chwarae rôl.

Darperir cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu hyder ac i wneud dewisiadau yn annibynnol. Maent yn datblygu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatrys problemau ac mae'r goreuon yn gwneud hyn yn dda.

Caiff y plant gyfleoedd cyson i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy gyflwyno llyfrau gan awduron o Gymru a dathlu Gŵyl Ddewi a Santes Dwynwen a chymryd rhan yn yr ŵyl Feithrin.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Maent yn cael cyfle i ymweld â'r swyddfa bost i bostio llythyr adre ac i ddysgu am rôl pobl yn y gymuned drwy ymweliadau gan y nyrs a'r ddynes lolipop. Maent hefyd yn cael cyfle i chwarae ar fuarth yr ysgol ac i ymweld â Pili Palas. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr i gyd yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu yn effeithiol iawn er mwyn cynnwys y plant yn y dysgu. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn gweithredu'r rhain yn llwyddiannus trwy gyflwyno ystod o weithgareddau ysgogol.

Mae'r berthynas gynnes sy'n bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ynghyd â'u hadnabyddiaeth drylwyr o anghenion pob plentyn yn gryfder. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu ar gyfer anghenion pob plentyn yn effeithiol a chreu awyrgylch dysgu lwyddiannus. Mae cyflymder da i'r sesiynau a llifa'r sesiynau o un i'r llall yn rhwydd iawn heb i'r plant golli diddordeb. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn raenus ac yn holi'n dda. Mae hyn yn datblygu medrau llafar ac iaith fathemategol y plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr i gyd yn arsylwi'n gyson ar fedrau plant yn unigol, ac maent yn gwybod yn dda am gynnydd pob un ohonynt. Maent yn cyd-drafod a rhannu'r wybodaeth â'i gilydd ar ddiwedd y sesiwn. Trwy hyn, maent yn dod i adnabod yr hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn symud pob plentyn ymlaen yn llwyddiannus. Mae'r arsylwadau dyddiol yn cael eu bwydo i mewn i ffeil o gynnydd unigol pob plentyn ar gyfer cofnodi eu datblygiad yn y chwe maes dysgu.

Mae'r wybodaeth i rieni ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfleu cynnydd y plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo byw yn iach yn llwyddiannus ac yn defnyddio arbenigedd nyrs yn y gymuned i gyfrannu at hyn yn effeithiol. Caiff y plant gyfleoedd cyson i ymarfer corff trwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n bwrpasol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio, trafod eu teimladau a chymryd eu tro yn yr amser cylch yn ddyddiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles, datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Datblygir medrau cymdeithasol y plant yn effeithiol yn ystod y cyfnod byrbryd ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel "helpars" yn y caffi. Serch hynny, ni roddir digon o gyfleoedd i blant werthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn anghyson rhwng y ddau ddosbarth.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Cloir y drws allanol a chymerir gofal da pan fydd plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau pwrpasol o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi a'u trafod gyda'u rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch hapus a diwyd o fewn y lleoliad ac mae'r plant yn ymgartrefu'n dda. Mae ethos y lleoliad yn gynhwysol a chynnes ac mae'r plant yn cael chwarae teg a'u parchu. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm eang a diddorol.

Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau addas i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod o adnoddau pwrpasol yn llwyddiannus ar y cyfan er mwyn sbarduno a chyfoethogi profiadau'r plant. Mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol a symbylol ac yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol iawn. Mae ardaloedd

pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i sicrhau profiadau priodol a safonau da. Mae pwyslais iach ar fwynhad, ac mae'r plant yn elwa o hyn yn fawr trwy ddewis gweithio, archebu a bwyta yn y caffi.

Gwna'r lleoliad ddefnydd effeithiol o'r ardal tu allan fel estyniad o'r ystafell ddosbarth er mwyn datblygu'r rhan fwyaf o fedrau corfforol ac ymchwilgar y plant; er enghraifft, wrth blannu ac arsylwi ar hyn sy'n tyfu yn y potiau tyfu sydd y tu fewn a thu allan.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinwyr newydd yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n gadarn ar safonau uchel a sicrhau darpariaeth o ansawdd da ar gyfer pob plentyn. Maent yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol ac yn llwyddo i greu ethos o gydweithio hwylus er lles y plant. Caiff y pwyllgor rheoli wybodaeth briodol gan yr arweinwyr am yr hyn mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella o ran safonau a darpariaeth.

Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae'r rhain yn cael eu diffinio'n glir ac, o ganlyniad, mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a chydag ymdeimlad pendant o bwrpas. Mae cydweithio tîm yn un o gryfderau'r lleoliad.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r prosesau hyn yn dda i nodi anghenion hyfforddiant yn bwrpasol ac maent yn ymateb i'r anghenion hyn yn briodol. Maent yn cefnogi staff yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth am y Cyfnod Sylfaen ac mae effaith hyn ynghyd â'r hyfforddiant i'w gweld yn safonau'r plant a'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae ffocws addas ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinwyr yn datblygu diwylliant lled effeithiol o hunanarfarnu sydd yn golygu eu bod yn dod i adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn trafod yn gyson efo'r staff ynghylch sut i wella'r ddarpariaeth ac yn ymgynghori â'r plant am eu hoff a'u cas bethau. Caiff rhieni gyfleoedd priodol ar ffurf holiadur ar ddiwedd y flwyddyn i roi ymateb am fodlonrwydd â'r lleoliad. Defnyddir arfarniadau allanol yn addas er mwyn gwella darpariaeth y lleoliad a chodi safonau. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi'r hyn y mae'n ei wneud yn dda ac i ddechrau adnabod y meysydd sydd angen eu gwella.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a dwy flaenoriaeth cynllun datblygu'r lleoliad. Mae tystiolaeth eisoes bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn arbennig o ran datblygu'r ardal tu allan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae partneriaethau gyda rhieni yn fuddiol. Gwneir defnydd effeithiol o’r hysbysfwrdd a llythyrau i rannu gwybodaeth o ddydd i ddydd. Caiff rhieni gyfle i drafod cynnydd y plant mewn sesiwn agored ac maent yn derbyn llyfryn ar ddiwedd cyfnod yn y lleoliad yn dangos cynnydd eu plentyn. Mae’r rhieni yn werthfawrogol o gyfraniad yr ymarferwyr ac yn codi arian yn flynyddol er mwyn ychwanegu at y ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau effeithiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a’r Mudiad Ysgolion Meithrin. Trwy’r partneriaethau hyn, mae’r ymarferwyr yn derbyn syniadau newydd trwy hyfforddiant, ac yn arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio er mwyn cyfoethogi’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae’r trefniadau pontio gyda’r Cylch Ti a Fi a’r ysgol gynradd leol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn sefydlu’n gyflym wrth drosglwyddo o un lleoliad i’r llall.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Cyfranna hyn yn helaeth at godi safonau darpariaeth a sicrhau lles y plant.

Mae ymarferwyr yn cael mynediad i ystod effeithiol o hyfforddiant addas yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn parhau i adeiladu ar eu profiad, er enghraifft wrth ddatblygu medrau rhifedd a lles y plant a sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu yn gadarn.

Mae’r arweinwyr yn cynhyrchu mantolen ariannol yn flynyddol sy’n cael ei hanfon i’r comisiwn elusennau ac maent yn dyrannu cyllid yn briodol i flaenoriaethau'r lleoliad.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 39 | 32<br>82%<br>80% | 6<br>15%<br>19% | 0<br>0%<br>0% | 1<br>3%<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 39 | 33<br>85%<br>85% | 6<br>15%<br>15% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 39 | 32<br>82%<br>86% | 6<br>15%<br>13% | 1<br>3%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child is making good progress at the setting. | 39 | 26<br>67%<br>80% | 10<br>26%<br>18% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 39 | 26<br>67%<br>69% | 9<br>23%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 4 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Teaching is good. | 39 | 29<br>74%<br>79% | 7<br>18%<br>18% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 39 | 30<br>77%<br>82% | 6<br>15%<br>15% | 1<br>3%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 38 | 21<br>55%<br>73% | 11<br>29%<br>22% | 0<br>0%<br>0% | 1<br>3%<br>0% | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| My child is safe at the setting. | 39 | 33<br>85%<br>85% | 6<br>15%<br>14% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 33 | 20<br>61%<br>65% | 7<br>21%<br>24% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 39 | 20<br>51%<br>63% | 12<br>31%<br>29% | 3<br>8%<br>5% | 2<br>5%<br>1% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 39 | 26<br>67% | 10<br>26% | 0<br>0% | 2<br>5% | 1 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 39 | 21<br>54% | 14<br>36% | 0<br>0% | 2<br>5% | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 39 | 28<br>72% | 5<br>13% | 3<br>8% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 71% | 23% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 39 | 23<br>59% | 13<br>33% | 2<br>5% | 1<br>3% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 62% | 30% | 4% | 0% | | |
| The setting is well run. | 39 | 32<br>82% | 4<br>10% | 2<br>5% | 0<br>0% | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 16% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Sheila Birkhead | Arolygydd Tîm |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |